# Cwestiynau ac Atebion ar y Terfyn ar Faint Dosbarthiadau Babanod a'r Eithriadau

## Cyflwyniad

Cafodd y gyfres hon o gwestiynau ac atebion ei llunio i gynorthwyo gyda Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2015 ac i fod yn arweiniad byr i'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod ac i apeliadau'n ymwneud â maint dosbarthiadau babanod. Caiff arweiniad llawn ei gyflwyno maes o law, yn ystod gwanwyn 2015 yn fwyaf tebygol.

## MAINT DOSBARTHIADAU BABANOD

### Beth yw'r Ddeddfwriaeth ar Faint Dosbarthiadau Babanod?

Hwn yw'r terfyn cyfreithiol ar gyfer "maint dosbarthiadau i ddosbarthiadau babanod" h.y. unrhyw ddosbarth lle bydd *mwyafrif* y plant wedi cyrraedd 5, 6 neu 7 oed *erbyn diwedd y flwyddyn academaidd*. Mae'r ddeddfwriaeth yn datgan:

> "*Y terfyn a osodir yw uchafswm o 30 o ddisgyblion mewn dosbarth babanod ar unrhyw adeg pan gynhelir sesiwn addysgu gyffredin gan un athro neu athrawes ysgol*".[1]

Nid yw 'sesiwn addysgu gyffredin' yn cynnwys gwasanaeth yr ysgol nac unrhyw weithgaredd ysgol arall a gynhelir fel arfer gyda grwpiau mawr o ddisgyblion[2], ac ni ddylai gweithgareddau o'r fath gael eu cynnwys wrth gyfrif maint dosbarthiadau at ddibenion CYBLD.

Y terfyn ar faint dosbarthiadau babanod yw'r uchafswm (30) o blant y gellir ei addysgu mewn dosbarth babanod. Gall dosbarth babanod gynnwys plant o grŵp un flwyddyn neu gyfuniad o grwpiau blwyddyn gwahanol h.y. Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, sy'n cael ei addysgu gan un athro ysgol, a gall gynnwys disgyblion meithrin os mai plant hŷn yw mwyafrif y plant o hyd.

### A yw'r cyllid ychwanegol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r terfyn ar faint dosbarthiadau wedi dod i ben?

Yn wreiddiol, rhoddwyd cyllid ar wahân o'r neilltu i helpu ysgolion i ad-drefnu er mwyn glynu wrth y terfynau ar faint dosbarthiadau e.e. i greu ystafelloedd dosbarth ychwanegol a chyflogi athrawon ychwanegol. Er hynny, mae'r cyllid i helpu awdurdodau lleol i lynu wrth y terfyn ar faint dosbarthiadau yn awr wedi'i gynnwys yn nyraniadau'r Grant Cynnal Refeniw. Gall awdurdodau lleol ddewis cynnwys yn eu fformiwla cyllido ffactor i gyfeirio adnoddau i ysgolion sydd â dosbarthiadau CA1 i'w galluogi i lynu wrth yr ymrwymiad ar faint dosbarthiadau.

### Os yw'r dosbarth yn mynd dros 30 a gawn ni roi oedolyn arall i mewn i gefnogi'r athro?

Ddim o anghenraid, rhaid iddynt fod yn 'athrawon ysgol' fel y gwelir yn **Atodiad A.**

### A gaiff cynorthwyydd addysgu lefel uwch fod yng ngofal dosbarth?

[1] Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 1998 a Deddf Addysg 2002
[2] Adran 4, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

I osgoi dryswch ynglŷn â phwy sy'n cael addysgu dosbarth babanod heb oruchwyliaeth a phwy sydd ddim, mae **Atodiad A** yn egluro hyn drwy roi diffiniad o 'athro ysgol' at ddibenion maint dosbarthiadau babanod.

**Faint o athrawon ddylai fod mewn ysgol fabanod/ysgol gynradd?**
Rhaid i ysgol gyflogi digon o athrawon i'w galluogi i addysgu ei dosbarthiadau babanod mewn grwpiau heb fod dros 30 o ddisgyblion i bob athro.

## NIFEROEDD DERBYN A THREFNU DOSBARTHIADAU

**Beth yw Nifer Derbyn Ysgol?**
Nifer derbyn yr ysgol yw'r nifer gofynnol o ddisgyblion y mae'n rhaid eu derbyn i ysgol ym mhob grŵp blwyddyn os ceir digon o geisiadau derbyn.

Mae'r nifer derbyn yn cael ei gyfrifo o gapasiti'r ysgol gyfan. Mae'r cyfrifiad capasiti yn cael ei rannu gyda nifer y grwpiau blwyddyn; dyma'r nifer derbyn. Mae niferoedd derbyn yn amrywio ac nid ydynt bob amser yn cyd-fynd yn hawdd â'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod. Fel arfer, dylent ddarparu isafswm ac uchafswm nifer y disgyblion sydd i'w derbyn i grŵp blwyddyn, oherwydd y gallai derbyn disgyblion ychwanegol achosi gorlenwi ac anfantais i gyflenwi addysg, nid yn unig yn yr ysgol ond yn yr ardal ehangach os oes rhai ysgolion yn orlawn a bod ysgolion eraill ddim yn cyrraedd eu capasiti.

**Pwy sy'n trefnu'r dosbarthiadau?**
Y Pennaeth a'r corff llywodraethu sy'n trefnu dosbarthiadau, pan fyddant yn gwybod nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn ar gyfer y mis Medi nesaf. Wrth gynllunio, dylent ystyried unrhyw blant meithrin neu oedran derbyn y gellir eu derbyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol oherwydd mynediad gwasgaredig neu ohiriedig. Er nad yw'n bosibl rhagweld derbyniadau ychwanegol yn gwbl gywir, mae problem gyda dosbarthiadau rhy fawr yn llai tebygol o ddigwydd drwy gynllunio. Bydd cynllunio fel hyn yn helpu i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod.

**A gawn ni wrthod derbyn plentyn pe byddai'n rhaid inni symud i addysgu oedrannau cymysg?**
Ddim o anghenraid. Wrth ddelio â cheisiadau am dderbyniadau ar yr adeg dderbyn arferol h.y. Derbyn, rhaid i'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol dderbyn disgyblion hyd at y nifer derbyn y mae wedi'i gyhoeddi.

Gyda cheisiadau Blwyddyn 1 neu Flwyddyn 2, gallai'r awdurdod derbyn wrthod derbyn disgybl pe byddai angen iddo gyflogi athro arall neu fynd i gost o fath arall er mwyn cydymffurfio â'r terfyn ar faint dosbarthiadau. Gan fod nifer o ysgolion wedi mabwysiadu addysgu oedrannau cymysg yn llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen, gallai fod yn anodd cyfiawnhau hyn fel rheswm am wrthod derbyn, os oes modd trefnu dosbarthiadau i fodloni'r terfyn heb gynyddu nifer yr athrawon neu'r dosbarthiadau.

**Pam y dylem gymysgu grwpiau oedran?**
Dylai addysgu oedrannau cymysg gael ei ddefnyddio pan fo niferoedd yn caniatáu, er mwyn sicrhau bod dosbarthiadau'n aros yn is na'r terfyn, er y cydnabyddir y gellid bod rhwystrau rhag cymysgu'r cyfnod sylfaen gyda disgyblion hŷn. Ni ddylai fod

unrhyw dystiolaeth o ddosbarthiadau babanod rhy fawr ochr yn ochr â dosbarthiadau babanod sydd â lle.

**Beth os nad yw nifer derbyn yr ysgol a maint y dosbarth babanod yn cyd-fynd â'i gilydd?**

Ceir weithiau ddryswch rhwng nifer derbyn yr ysgol a'r terfyn ar faint dosbarthiadau yn enwedig os ydynt yn agos. Mae'r nifer derbyn yn cael blaenoriaeth dros faint dosbarthiadau ac ni ddylid mynd dros y ffigur hwn. Os mai 29 yw nifer derbyn yr ysgol a bod 30 o geisiadau'n dod i law, dim ond 29 o ddisgyblion ddylai gael eu derbyn. I'r gwrthwyneb, os yw'r nifer derbyn yn 31 rhaid i bob ymgeisydd hyd at y nifer gael eu derbyn, yn hytrach na dim ond 30 i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod.

**Beth ddylem ei wneud os yw ein nifer derbyn yn fwy na 30?**

Os yw'r ceisiadau ar gyfer y flwyddyn dderbyn arferol (Derbyn fel arfer), yn cyrraedd nifer derbyn yr ysgol ond ddim yn uwch na hwnnw, rhaid i awdurdodau derbyn dderbyn pob disgybl hyd at nifer derbyn yr ysgol; hyd yn oed pe byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid iddynt gyflogi athro arall neu ail-drefnu dosbarthiadau er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau babanod. Er enghraifft, gallai ysgol gyda nifer derbyn o 40 gyflogi dau athro ar gyfer y dosbarth Derbyn, neu gyfuno'r dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 a Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 gan rannu 120 o ddisgyblion rhwng 4 athro er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio ar draws y Cyfnod Sylfaen.

| | |
|---|---|
| Derbyn | 30 |
| Derbyn/Blwyddyn 1 | 10/20 |
| Blwyddyn 1/Blwyddyn 2 | 20/10 |
| Blwyddyn 2 | 30 |
| Cyfanswm | 120 |

Caiff awdurdodau derbyn wrthod derbyn disgyblion i leoedd mewn unrhyw flwyddyn heblaw am y flwyddyn dderbyn arferol h.y. Derbyn, pe byddai cynnig lle yn esgor ar anfantais (e.e. gan wneud iddynt orfod cyflogi athro ychwanegol neu greu dosbarth arall).

## EITHRIADAU I FAINT DOSBARTHIADAU BABANOD

**Beth yw categorïau'r eithriadau i faint dosbarthiadau babanod?**

Mae'r Rheoliadau[3] yn pennu'r amgylchiadau cyfyngedig lle gellir derbyn disgyblion fel eithriadau i'r terfyn ar faint dosbarthiadau babanod. Mae'r testun yn y cromfachau er eglurder yn unig ac mae'r llythrennau'n cyd-fynd â'r categorïau CYBLD. Mae'r eithriadau hyn fel y maent wedi'u hargraffu yn arweiniad y CYBLD:

A. Plant y mae eu datganiad o Angen Addysgol Arbennig (AAA) yn nodi y dylent gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw, **ac** a dderbyniwyd i'r ysgol **y tu allan** i gylch derbyn arferol.

[3] Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013

B. Plant y gwrthodwyd eu derbyn i ysgol yn wreiddiol, ond y cynigiwyd lle iddynt yn ddiweddarach **y tu allan** i gylch derbyn arferol drwy gyfarwyddyd panel apeliadau derbyn, neu oherwydd bod y sawl sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod y gwnaed camgymeriad wrth weithredu trefniadau derbyn yr ysgol.

E. Plant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig, ond sy'n cael rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd.

F. Plant ag AAA sy'n cael eu haddysgu fel arfer mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd, ond sy'n cael rhan o'u gwersi mewn dosbarth gyda babanod yn y brif ffrwd.

G. Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol (plant sy'n derbyn gofal), neu nad ydynt yn derbyn gofal mwyach (plant oedd yn derbyn gofal yn y gorffennol) oherwydd iddynt gael eu mabwysiadu neu gael eu lleoli gyda theulu neu gael gwarcheidwad arbennig **ac** sy'n cael eu derbyn i'r ysgol **y tu allan** i gylch derbyn arferol.

J. Plant a dderbynnir **y tu allan** i gylch derbyn arferol:

- y mae'r **awdurdod lleol** cynhaliol **yn cadarnhau** na allant gael lle mewn ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol i'w cartref oherwydd eu bod wedi symud i mewn i'r ardal **y tu allan** i'r cylch derbyn arferol, neu
- sy'n cael eu derbyn **y tu allan** i'r cylch derbyn arferol a'u bod yn dymuno addysg grefyddol, neu addysg cyfrwng Cymraeg a'r ysgol dan sylw yw'r **unig** ysgol addas o fewn pellter rhesymol.

K. Plant a dderbyniwyd i'r ysgol **y tu allan** i'r cylch derbyn arferol (ar gyfer y flwyddyn dderbyn NID Blwyddyn 1 na 2) **ar ôl** i'r ysgol drefnu ei dosbarthiadau, ac **ar ôl** diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol (ond na chyrhaeddwyd y nifer derbyn) ac y byddai'n rhaid i'r ysgol o'r herwydd gymryd camau perthnasol pe na fyddai'r cyfryw blant yn ddisgyblion a eithrir. (Pe byddai'n ymarferol aildrefnu dosbarthiadau bryd hynny, dylid ystyried hyn cyn penderfynu bod y plentyn yn eithriad.)

L. Plant i bersonél (ar wasanaeth) yn y lluoedd arfog sy'n cael eu derbyn **y tu allan** i'r cylch derbyn arferol.

M. Plant y mae eu gefell neu'u brawd/brodyr neu'u chwaer/chwiorydd eraill o enedigaeth luosog yn cael eu derbyn fel disgyblion a eithrir, fel y disgybl(ion) olaf i gael lle cyn cyrredd y nifer derbyn.

Caiff plant yng nghategorïau E a F eu trin fel disgyblion a eithrir dim ond pan maent mewn dosbarth babanod yn yr ysgol brif ffrwd neu'r tu allan i'r uned arbennig (yn ôl y digwydd).

**A yw unrhyw blentyn a dderbynnir y tu allan i'r cylch derbyn arferol yn eithriad?**
Nac ydy, dim ond y plant sy'n cyd-fynd â'r categorïau eithrio uchod sy'n cyfrif fel eithriadau.

**Os yw gefeilliaid neu blant genedigaethau lluosog eraill yn eithriadau a ganiateir a oes yn rhaid eu derbyn bob amser?**
Ddim o anghenraid. Ni fyddent ond yn cael eu derbyn os mai un o'r brodyr/chwiorydd yw'r disgybl olaf i gael ei dderbyn h.y. os mai'r nifer derbyn yw 30 ac un o'r brodyr/chwiorydd yw'r 30[ain] disgybl sy'n cael cynnig lle ac os na chynigiwyd lle i'r llall/lleill yna gellir derbyn y brawd/brodyr a'r chwaer/chwiorydd hyn fel eithriad(au).

**Am faint mae disgybl yn dal i fod yn eithriad?**
Gall unrhyw blentyn a dderbynnir i'r ysgol fel disgybl a eithrir er 9 Gorffennaf 2013 ddal i fod yn ddisgybl a eithrir drwy gydol ei amser yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, cyn gynted ag y cyfyd cyfle naill ai drwy fod disgyblion yn gadael y dosbarth/ysgol, drwy ad-drefnu dosbarthiadau neu benodi athro ychwanegol, disgwylir y byddai'r disgybl yn peidio â bod â statws eithriedig ac y byddai'r dosbarthiadau'n cydymffurfio â'r terfyn ar faint dosbarthiadau, sef 30 disgybl neu lai. Disgwylir i ysgolion gymryd pob cyfle i gyfyngu ar y dosbarthiadau i 30 disgybl neu lai.

**Beth os bydd disgybl yn gadael dosbarth sydd â disgyblion a eithrir?**
Mae disgybl yn cadw ei statws eithriedig nes y cymerir camau perthnasol i leihau maint y dosbarth neu nes bod un disgybl neu ragor yn gadael y dosbarth. Ni fyddai gan y disgybl yn yr achos hwn statws eithriedig mwyach; byddai'n dod yn aelod arferol o'r dosbarth.

Ni ellir derbyn disgybl arall i'r dosbarth yn lle disgybl sydd wedi gadael er bod disgybl a arferai fod yn ddisgybl eithriedig yn y dosbarth.

**A all disgybl adennill statws eithriedig?**
Na. Os bydd disgybl a eithrir yn colli'r statws hwn ni all ddychwelyd i statws eithriedig yn ddiweddarach.

**A yw'r terfyn ar faint dosbarthiadau'n weithredol gyda dosbarthiadau meithrin/Derbyn neu Flwyddyn 2/Blwyddyn 3 cymysg?**
Weithiau:-

- Os ceir dosbarth cymysg sy'n cynnwys disgyblion Meithrin a Derbyn, a disgyblion Derbyn yw mwyafrif y dosbarth, mae'r terfyn 30 disgybl yn weithredol a rhaid peidio â thorri'r rheol.

- Os ceir dosbarth cymysg sy'n cynnwys disgyblion Meithrin a Derbyn, a disgyblion Meithrin yw mwyafrif y dosbarth ym mhob sesiwn, nid yw'r terfyn 30 disgybl yn weithredol.

- Os ceir dosbarth cymysg sy'n cynnwys disgyblion Meithrin a Derbyn, ac y ceir nifer cyfartal o ddisgyblion o bob carfan, ni fydd y terfyn 30 disgybl yn weithredol.

**Sut caiff maint dosbarthiadau babanod ei fonitro?**
Mae'r wybodaeth a rodda ysgolion yng nghasgliad data CYBLD mis Ionawr yn cael ei hanfon i'r awdurdod lleol. Un o'r pethau y mae'r casgliad data'n adrodd arno yw nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn dosbarth a faint o athrawon ysgol a geir ar gyfer y dosbarth. Mae'r data hefyd yn dangos nifer yr eithriadau a'r math ym

mhob dosbarth; os yw'r gymhareb athro i ddisgyblion yn uwch na 1:30 heb ddim eithriadau wedi'u cofnodi bydd y dosbarthiadau hyn yn ymddangos fel rhai sy'n torri'r rheol.

**Sut caiff y data eu hanfon i Lywodraeth Cymru?**
Bydd y ffurflen CYBLD yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng yr awdurdod lleol a'r system DEWI ddiogel. Rhaid i'r ALl sicrhau ei fod wedi cymeradwyo derbyn unrhyw blentyn fel eithriad a ganiateir, a'i fod wedi archwilio'r sefyllfa o safbwynt ysgolion eraill sydd o fewn pellter rhesymol os yw hyn yn rhan o'r disgrifiad ar gyfer y meini prawf.

## APELIADAU

**Pryd byddem yn cynnig apêl i ymgeisydd aflwyddiannus?**
Os nad yw disgybl yn llwyddo i gael lle yn yr ysgol o'i ddewis, rhaid cynnig cyfle iddo apelio yn erbyn y penderfyniad. Dylai'r llythyr i hysbysu'r rhieni na fu eu cais yn llwyddiannus gynnwys y rheswm pam y buont yn aflwyddiannus a'r camau y dylent eu cymryd i apelio.

**Pwy Gaiff Fynd i Wrandawiad Apêl?**
Rhaid i'r panel apeliadau adael i'r apelydd fynychu gwrandawiad yr apêl a chael y cyfle i wneud sylwadau llafar ac egluro neu ategu ei apêl ysgrifenedig. Gall yr apelydd wahodd ffrind neu berthynas i'w gefnogi. Mae rhai apelyddion yn dewis cael cynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer y gwrandawiad ac mae hyn yn cael ei ganiatáu.

**A gaiff Pennaeth yr ysgol fynychu gwrandawiad yr apêl?**
Nid oes angen i Bennaeth na chynrychiolydd yr ysgol dan sylw fod yn bresennol. Bydd gan yr awdurdod lleol rywun i gyflwyno'u dadl dros wrthod lle ac i ateb unrhyw gwestiynau y bydd y panel a'r apelydd yn eu gofyn.

**Ym mha ffordd y mae apeliadau maint dosbarthiadau babanod yn wahanol?**
Dim ond mewn ychydig achosion y gellir cadarnhau apeliadau maint dosbarthiadau babanod a wneir gan rieni.

Sef:

- Nad oedd y trefniadau derbyn yn cydymffurfio â'r gyfraith ac y byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle pe byddent.
- Roedd diffyg yn y modd y rhoddwyd y trefniadau ar waith yn achos y plentyn.
- Nid oedd y penderfyniad i beidio â chynnig lle yn un rhesymol. Mae afresymol yn yr achos hwn yn golygu yn gwbl afresymol.

**Beth os yw'r apelydd yn anghytuno â'r penderfyniad?**
Mae penderfyniad y panel apeliadau'n derfynol a'r llysoedd yn unig sy'n gallu ei wrthdroi lle bo naill ai'r apelydd neu'r awdurdod derbyn yn gwneud cais llwyddiannus am Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad hwnnw.

**Atodiad A**

## Diffiniad o 'athro ysgol' at ddibenion maint dosbarthiadau babanod

1. Bydd ysgolion yn bodloni'r gofynion yn ymwneud â maint dosbarthiadau babanod os caiff grŵp babanod nad yw'n fwy na 30 ei addysgu gan 'athro ysgol'[4]. Mae athrawon ysgol yn cynnwys:

- Penaethiaid
- Y rheini a fodlonodd y gofynion ar gyfer derbyn hysbysiad ysgrifenedig eu bod yn athrawon cymwysedig dan reoliadau cymwysterau blaenorol
- Athrawon cofrestredig
- Unigolion sy'n dilyn hyfforddiant cychwynnol athrawon yn llwyddiannus yng Nghymru
- Athrawon hyfforddedig o dramor, Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swisdir
- Staff ar gynllun hyfforddiant athrawon seiliedig ar gyflogaeth yng Nghymru
- Athrawon o'r Alban a Gogledd Iwerddon
- Unigolion sy'n cymhwyso o Wladwriaeth Guernsey
- Unigolion sy'n cymhwyso yn Lloegr sy'n bodloni'r gofynion cydnabyddiaeth penodol; nid yw pob categori o bobl sy'n cymhwyso yn Lloegr yn cael eu cydnabod fel athrawon cymwysedig yng Nghymru.

2. **<u>Nid yw</u>** 'athrawon ysgol' yn cynnwys cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr addysgu lefel uwch na staff cymorth eraill.

Mae manylion pellach am pwy sy'n cael gwneud gwaith addysgu mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir i'w cael yn nogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru '*Addysgu a Chymwysterau Addysgu'* (122/2013).

[4] Diffinir gan adran 122 o Ddeddf Addysg 2002 a Gorchymyn Addysg (Cymwysterau Rhagnodedig Athrawon Ysgol, ayb) 2003 a wnaed dan yr adran honno